

EVANS, WILLIAM (1838 - 1921), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd ac awdur

Enw: William Evans
Dyddiad geni: 1838
Dyddiad marw: 1921
Priod: Caroline Evans (née Davies)
Rhiant: David Evans
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd ac awdur
Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
Awdur: Katharine Monica Davies

Ganwyd yn Betw, ger Tonyrefail, Sir Forgannwg, 1 Awst 1838, mab David Evans, Caerdydd, ac yr i'r **Parch. William Evans**, Tonyrefail. Cafodd ei addysg yng Ngholeg Normal Abertawe a Phrifysgol Glasgow (M.A.), a bu wedi hynny yng Ngholeg Cheshunt am gwrs mewn diwinyddiaeth. Ordeiniwyd ef yn 1863 ac ymgwymerodd â gofal eglwys Methodistiaid Calфинаidd Saesneg Runcorn. Ymhen dwy flynedd symudodd i S. Andrews, Pembroke Dock. Yn 1875 cafodd alwad i eglwys Saesneg Bath Street, Aberystwyth, lle y bu am chwe blynedd, pryd y galwyd ef yn ôl i Pembroke Dock, lle yr arhosodd hyd ymddiswyddo o'r fugeiliaeth yn 1905. Etholwyd ef yn llywydd cymdeithasfa'r De am y flwyddyn 1868, a bu'n ysgrifennydd trysorfa'r gweinidogion yn y De am 20 mlynedd. Bu farw yn ei gartref yn Pembroke Dock 11 Chwefror 1921. Ysgrifennodd *Cofiant William Evans, Tonyrefail* (Newport, 1892), *An Outline of the History of Welsh Theology* (London, 1900), *The History of the South Pembrokeshire Calvinistic Methodist Churches* (Wrecsam, 1913, gyda O. S. Symond), *Souvenir of the Dawkins Family, Pembroke*, 1916, *Memoir of the Rev. William Powell, Pembroke* (Cardiff, 1918).

Awdur

Katharine Monica Davies

Ffynonellau

Y Goleuad, 1921

Who's who in Wales, 1920

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20734612](https://www.wikidata.org/wiki/Q20734612)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

